OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 5

Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen

### Ystyr "tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd"

**17.** Yn y Rhan hon, ystyr "tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd" yw tail organig y mae mwy na 30 % o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd ar yr adeg y taenir y tail.

### Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd

**18.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 19 ac 20, ni chaiff unrhyw berson daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir rhwng y dyddiadau canlynol, sydd bob un ohonynt yn ddyddiadau cynwysedig ("y cyfnod gwaharddedig")—

**Y cyfnod gwaharddedig**

| *Math o Bridd* | *Glaswelltir* | *Tir tro* |
|---|---|---|
| Pridd tywodlyd neu denau | 1 Medi i 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr |
| Pob math arall o bridd | 15 Hydref i 15 Ionawr | 1 Hydref i 31 Ionawr |

### Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi

**19.** Caniateir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir tro lle mae'r pridd yn dywodlyd neu'n denau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynwysedig, ar yr amod yr heuir y cnwd ar neu cyn 15 Medi.

### Esemptiadau ar gyfer daliadau organig

**20.** Caiff meddiannydd daliad sydd wedi cyflwyno ei ymgymeriad i'r system reoli y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Reoliad y Cyngor (EC) 834/2007([1]) daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg—

(a) ar gnydau a restrir yn y tabl yn Atodlen 4 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu

([1]) EUR 834/2007, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/693 a 831.

(b) ar gnydau eraill yn unol â chyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau(**2**),

ar yr amod na fydd pob hectar y mae tail organig yn cael ei daenu arno yn cael mwy na chyfanswm o 150 kg o nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd Chwefror.

### Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig

**21.** O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd Chwefror—

(a) 30 metr ciwbig yr hectar yw'r uchafswm o slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg ac 8 tunnell yr hectar yw'r uchafswm o dail dofednod y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg, a

(b) rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

### Adegau pan waherddir taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd

**22.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ar dir yn ystod y cyfnodau canlynol (mae pob dyddiad yn gynwysedig)—

(a) yn achos glaswelltir, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu

(b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

(2) Caniateir taenu gwrtaith yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4, ar yr amod nad eir dros ben y gyfradd uchaf yng ngholofn 2.

(3) Caniateir taenu yn ystod y cyfnodau hyn ar gnydau nad ydynt yn Atodlen 4 ar sail cyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau.

(**2**) Gweinyddir y cynllun gan Basis Registration Ltd, a gellir cael rhestr o bersonau cymwysedig drwy wneud cais i'r cwmni, neu ar ei wefan, www.basis-reg.com.